estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# **Gwaith ymgysylltu:** Diweddariad am y sector ôl-16 – hydref 2020

Rhagfyr 2020



# Gwaith ymgysylltu:  Diweddariad am y sector ôl-16 – hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ymgysylltu a wnaed i golegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a darpariaeth dysgu yn y sector cyfiawnder rhwng diwedd mis Medi a dechrau mis Hydref 2020.  Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell rhwng arolygwyr cyswllt ac uwch arweinwyr yn y sector ôl-16.  Roedd y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth ar ddulliau i barhau â dysgu, ac ar ddysgu cyfunol, a sut roedd darparwyr a phartneriaethau yn darparu cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad dysgwyr.  Ysgrifennwyd yr adroddiad cyn y cyfnod clo atal byr ar ddiwedd mis Hydref 2020, ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan uwch arweinwyr yn y darparwyr a'r partneriaethau yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol yn dilyn y cyfnod a nodwyd yn adran thematig yr Adroddiad Blynyddol 2019-2020.  Bydd y wybodaeth hon hefyd yn helpu llywio adolygiadau thematig o ddulliau dysgu cyfunol a lles dysgwyr, i'w cyhoeddi yn ddiweddarach yn ystod tymor y gwanwyn 2021.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Canfyddiadau allweddol .......... 1**

Symud ymlaen gyda dysgu cyfunol .......... 1

Recriwtio a chofrestru .......... 2

Iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff .......... 2

Cymwysterau .......... 2

**Canfyddiadau manwl .......... 4**

Galwadau ymgysylltu dysgu yn y gwaith:  Medi – Hydref 2020 .......... 4

Galwadau ymgysylltu addysg bellach:  Medi – Hydref 2020 .......... 9

Galwadau ymgysylltu i bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:  Medi – Hydref 2020 .......... 15

Dysgu yn y sector cyfiawnder:  Medi – Hydref 2020 .......... 21

# Canfyddiadau allweddol

## Symud ymlaen gyda dysgu cyfunol

Ers y cyfarfodydd ymgysylltu diwethaf gyda darparwyr ôl-16 ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020, mae darparwyr a'u hathrawon, hyfforddwyr ac aseswyr, wedi wynebu heriau digynsail yn cefnogi eu dysgwyr i nid yn unig ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth, ond rhoi lefelau sy'n cynyddu o hyd o gymorth personol. Dywedodd pob darparwr eu bod wedi datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfnodau clo lleol neu achosion o COVID-19, a'u bod yn parhau i ddiwygio agweddau ar gyflwyno addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y sectorau.

Bu'n rhaid i rai lleoliadau i ddysgwyr dderbyn addysgu neu hyfforddiant wyneb yn wyneb gau o ganlyniad i gyfnodau clo lleol neu achosion positif o COVID-19. Mae'r cyfyngiadau ar fynediad i weithleoedd dysgwyr yn parhau i fod yn rhwystr mawr, gyda darparwyr yn cynnig gweithgareddau ar-lein i gynnal ymgysylltiad a diddordeb dysgwyr. Mae rhai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned dim ond yn defnyddio lleoliadau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, gan eu bod yn hyderus fod asesiadau a threfniadau risg iechyd a diogelwch priodol yn eu lle ar gyfer y rhain.

Dywed y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gwaith y byddent yn ymgorffori rhai agweddau ar ddysgu cyfunol mewn rhaglenni wrth symud ymlaen. Mae ychydig o ddarparwyr o'r farn fod dysgu cyfunol yn hanfodol ar gyfer cyfnod argyfwng COVID-19, ond y dylai dysgwyr yn y gwaith ddychwelyd i'w gweithgareddau arferol ar ôl yr argyfwng. Maent o'r farn y dylai'r model fod yn hyblyg neu, fel arall, ni fydd dysgwyr yn datblygu medrau cyflogaeth allweddol a hanfodol fel gweithio gyda phobl eraill, gweithio mewn tîm a medrau cyfathrebu.

I fynd i'r afael â thlodi digidol, mae sectorau wedi ymateb trwy gael, benthyca ac archebu offer TG, ond mae problemau'n parhau am nad yw'r offer a archebwyd wedi cyrraedd (addysg bellach), ac mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn siomedig i beidio â derbyn cyllid tebyg ar gyfer offer y mae'r sector addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned wedi'i gael. Mae'n her o hyd i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu manteisio ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â dysgu o bell.

Dywed arweinwyr fod llawer o staff a dysgwyr wedi datblygu eu medrau digidol yn sylweddol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae medrau digidol dysgwyr yn amrywio ym mhob sector a gallant fod yn rhwystr i rai dysgwyr. Yn yr un modd i staff, er y bu'r sectorau yn ymatebol o ran trefnu sesiynau hyfforddi a defnyddio'r Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) i gefnogi hyfforddi 'diemyntau digidol' neu hyrwyddwyr i hyfforddi aelodau staff eraill mewn dysgu yn y gwaith, addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned. Mae llawer o ddarparwyr wedi diweddaru eu gweithdrefnau ymsefydlu ar gyfer dysgwyr newydd i gofnodi medrau digidol ac argaeledd offer TG.

Er ei bod yn ymddangos bod hyfforddiant staff yn canolbwyntio mwy ar ddefnyddio TG a datblygu adnoddau ar-lein, cafwyd llai o drafodaethau am ddylunio cyrsiau neu raglenni ac addysgeg dysgu cyfunol. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cydnabod bod angen trafodaeth broffesiynol barhaus a dysgu am y dulliau gorau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Dywed darparwyr fod llawer o ddysgwyr wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r dulliau dysgu newydd.  Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae darparwyr yn mesur ymgysylltiad dysgwyr yn anghyson ar draws y sectorau.  Dywed arweinwyr a staff eu bod yn dechrau canolbwyntio mwy ar werthuso effaith strategaethau addysgu ar gynnydd, yn hytrach na dim ond nodi presenoldeb neu ymgysylltiad â deunyddiau.

Her allweddol ar raglenni a chyrsiau galwedigaethol yw cynnal ymgysylltiad a chymhelliant dysgwyr yn ystod cyfnodau clo neu gyfnodau hunanynysu.  Roedd y dysgwyr hyn yn dewis cyrsiau ymarferol, ac yn sgil yr argyfwng presennol, yn aml caiff yr agwedd hon ei hoedi neu'i lleihau yn sylweddol.  Dywed darparwyr nad yw dysgwyr lefel uwch sy'n dilyn rhaglenni lefel uwch, hyd yn oed y rhai sy'n dilyn cyrsiau a rhaglenni academaidd, efallai'n gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd ar y dechrau oherwydd bod rhesymau teuluol, fel gofal plant, yn cyfyngu ar eu hamser astudio.

## Recriwtio a chofrestru

Mae recriwtio yn dangos amrywiadau diddorol ar draws ac o fewn sectorau a meysydd dysgu.  Pan fydd cofrestriadau mewn cyrsiau penodol, fel peirianneg, adeiladu neu drin gwallt a therapi harddwch, yn ymddangos yn uwch na'r hyn a ragwelwyd mewn colegau, priodolir hyn yn bennaf i lefelau isel o swyddi gwag prentisiaeth o ganlyniad i'r pandemig parhaus.  Mewn dysgu yn y gwaith, mae amrywiad rhanbarthol mewn recriwtio ar draws meysydd dysgu.  Mae nifer o sectorau wedi cael eu taro'n galetach na rhai eraill, gan gynnwys peirianneg awyrenegol, lletygarwch ac arlwyo, ac mae amrywiadau rhanbarthol mewn peirianneg ac adeiladu.  Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi'i chael yn anodd ymgysylltu â dysgwyr â lefelau isel o lythrennedd a Saesneg (cyn mynediad i lefel mynediad) ar gyrsiau dysgu o bell a dysgu cyfunol.  Y rheswm am hyn yw diffyg hyder mewn rhai achosion, a'r ffaith fod yn well ganddynt fod mewn ystafell ddosbarth gyda thiwtor lle maent yn teimlo'n fwy diogel.

## Iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff

At ei gilydd, dywed darparwyr eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar les dysgwyr a staff. Er enghraifft, mae arweinwyr mewn colegau addysg bellach yn disgrifio'r modd y maent wedi trefnu bod ystod fwy o adnoddau lles ar gael i ddysgwyr.  Lle'r oedd yn briodol, ailgyflwynwyd gwasanaethau cymorth wyneb yn wyneb.  Cafwyd pryderon cynyddol ynghylch lles a diogelu mewn rhai colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, ond nid mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.  Yn aml, mae dysgwyr mewn dysgu yn y gwaith yn poeni ynghylch colli swydd a chael eu diswyddo.

Dywed darparwyr fod staff yn bryderus ynglŷn â dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb, ond eu bod wedi cael cymorth i'w helpu i oresgyn eu pryderon.  Ar draws darparwyr, cryfhawyd y cyfathrebu ymhellach yn ystod argyfwng COVID-19, ac mae rheolwyr ac arweinwyr yn cysylltu'n rheolaidd â staff i roi diweddariadau a chymorth.

## Cymwysterau

Dywed darparwyr eu bod yn parhau i weithio'n hyblyg i geisio creu pob cyfle i ddysgwyr gwblhau eu cymwysterau.  Mewn dysgu yn y gwaith ac mewn nifer fawr o

gyrsiau coleg, mae dysgwyr wedi bod yn dilyn eu rhaglenni a'u cyrsiau hyfforddi yn hwy na'r disgwyl erbyn hyn.  Mae darparwyr dan bwysau cynyddol i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn cwblhau'r gwaith mae angen iddynt ei wneud, yn enwedig i ffwrdd o'r gwaith, ac mae rheolau cadw pellter cymdeithasol yn lleihau capasiti gweithdai ac ystafelloedd dosbarth ymarferol yn fawr.  Mae arweinwyr yn pryderu am leoliad gwaith a dilyniant dysgwyr hyfforddeiaeth, gan fod cyflogwyr yn amharod i dderbyn y dysgwyr hyn ar gyfer profiad lleoliad gwaith.

Mae darparwyr yn codi pryderon am gamau lliniaru sefydliadau dyfarnu, fel goruchwylio medrau hanfodol o bell, a diffyg cytundeb ar gyfer asesu o bell.  Dywed arweinwyr nad yw sefydliadau dyfarnu wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn addasu gofynion asesu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Dywedodd arweinwyr eu bod yn pryderu ynglŷn â'r ansicrwydd parhaus ynghylch trefniadau asesu ac arholi ar gyfer 2021, yn enwedig o ran cymwysterau galwedigaethol.  Mae darparwyr yn nodi bod tebygolrwydd cryf y bydd llawer o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau 'trwydded i ymarfer' yn seiliedig ar fedrau yn parhau i beidio â gallu cwblhau'r cymwysterau hyn o fewn yr amserlenni disgwyliedig, o ganlyniad i anawsterau yn bodloni gofynion ymarferol gwaith a lleoliad.

# Canfyddiadau manwl

## Galwadau ymgysylltu dysgu yn y gwaith: Medi – Hydref 2020

### Symud ymlaen gyda dysgu cyfunol

Ers y sgyrsiau ymgysylltu diwethaf ym mis Mehefin, dywedodd yr holl ddarparwyr eu bod wedi datblygu a pharhau i ddefnyddio cynlluniau a strategaethau wrth gefn mewn ymdrech i gynnal gweithgareddau hyfforddi a chefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr wedi datblygu gweithdrefnau a phrotocolau sy'n amrywio graddau a'r math o weithgaredd, yn dibynnu ar lefel risg COVID-19. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i ymateb pan gaiff cyfyngiadau eu newid neu'u tynhau er mwyn rhoi lefelau gwell o gymorth ar-lein gydag aseiniadau a thasgau theori.

Cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth, roedd llawer o ddarparwyr wedi sefydlu prosesau ar-lein ar gyfer defnyddio portffolios electronig dysgwyr. Mae'r darparwyr hyn wedi annog dysgwyr i barhau i ddefnyddio'r system hon i gwblhau tasgau theori anorffenedig. Gall dysgwyr barhau i astudio agweddau allweddol ar theori ar gyfer eu rhaglen, ac maent yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol gan eu tiwtoriaid a'u haseswyr ar dystiolaeth yn eu portffolios, gan gynnwys tystiolaeth o'r gweithle, prosiectau ac asesiadau ysgrifenedig a gwblhawyd yn flaenorol.

Mae llawer o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr dysgu yn y gwaith wedi elwa ar hyfforddiant mewn defnyddio adnoddau ar-lein, ac maent yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r dechnoleg pan fyddant yn ymuno â rhaglenni. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi dweud bod y rhan fwyaf o'r staff a'r dysgwyr yn fwy cyfforddus â defnyddio dysgu o bell, ac maent yn fwy hyderus a chymwys yn defnyddio'r dechnoleg. Yn ystod argyfwng presennol COVID-19, mae staff, ar y cyfan, wedi coleddu'r dechnoleg a gwahanol ffyrdd o weithio mewn ymdrech i gefnogi eu dysgwyr. Mae bron pob un o'r darparwyr yn defnyddio polisi ar gyfer dysgu cyfunol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddarparwyr yn datblygu polisi o hyd. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i natur hyblyg y pandemig, sydd hefyd yn symud yn gyflym, a gallu staff i ymgymryd â'r gwaith.

> Cyflwynodd dau ddarparwr hyfforddiant dwys ar gyfer staff ar ddysgu cyfunol. Manteisiodd un darparwr ar weithgareddau datblygiad proffesiynol cyn gwyliau'r haf. Daeth y diwrnod hyfforddiant dynodedig hwn â'r holl swyddogion hyfforddi a rheolwyr dysgu yn y gwaith at ei gilydd i elwa ar adnoddau oedd wedi'u hanelu at ddatblygu eu medrau cyflwyno ac asesu, gyda ffocws ar ddysgu cyfunol.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, ymdrechion cyfyngedig yn unig a gafwyd gan ddarparwyr i fesur ansawdd dysgu o bell. Fodd bynnag, wrth i'r defnydd o ddysgu cyfunol ddatblygu, mae darparwyr o'r farn ei bod yn bryd dechrau gwerthuso safon addysgu, dysgu ac asesu o bell mewn ffordd gefnogol. Mae mwyafrif y darparwyr wedi ymgymryd â monitro, fel arfer trwy gyfarfodydd, trafodaethau â dysgwyr a staff a thrwy holiaduron ac arolygon i ddysgwyr. Mae gwiriadau'n cynnwys y cyfle a gaiff dysgwyr i ddysgu ar-lein, bod dysgwyr yn ddiogel ac yn iach, eu hamgylchiadau gwaith presennol, a ph'un a ydynt yn cael cymorth â'u dysgu. Dywed y rhan fwyaf o

ddarparwyr eu bod yn defnyddio ystod o gyfarfodydd i adolygu beth sy'n digwydd ar draws y sector a rhannu gwybodaeth am arferion gweithio ac adnoddau. Maent yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn hefyd i nodi a rhannu arfer gryfach ymhlith eu staff hyfforddi a'u partneriaid is-gontractwyr, lle bo'n briodol.

Mae dau ddarparwr yn gweithio i addasu'r sianel gyfathrebu i weddu i'r systemau a'r cymwysiadau sydd ar gael ac yn cael eu defnyddio gan ddysgwyr. Er enghraifft, defnyddiant ystod o gyfarfodydd digidol, ynghyd ag adnoddau printiedig neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb i gefnogi eu dysgwyr. Mewn un darparwr, mae staff yn anfon adnoddau papur at eu dysgwyr, fel llyfrau gwaith llythrennedd digidol a gramadeg SSIE, pan fydd angen. Mae un darparwr wedi cynyddu argaeledd sesiynau llythrennedd a rhifedd yn sylweddol trwy gyflwyno dosbarthiadau ar-lein gyda'r nos, ac yn ystod y dydd yn ogystal.

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â thlodi digidol, mae gan bob darparwr gynllun benthyca gliniadur i wneud yn siŵr fod gan bob dysgwr yr adnoddau technoleg sydd eu hangen arnynt i allu dysgu ar-lein. Pan nodwyd dysgwyr nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, mae donglau wi-fi rhagdaledig wedi cael eu rhoi ar fenthyg iddynt. Fodd bynnag, mynegodd darparwyr siom na chafodd y sector dysgu yn y gwaith ei gynnwys yn ffrwd gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg gwybodaeth a chymorth iechyd meddwl a oedd ar gael ar gyfer addysg bellach.

Yn yr achosion gorau, nodwyd bod dysgwyr hyfforddeiaeth yn grŵp risg allweddol, a bu darparwyr yn cynnal cyswllt rheolaidd â'r dysgwyr hyn. Mae symud dysgu hyfforddeiaethau ar-lein yn parhau i fod yn her sylweddol i'r sector, ac mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn blaenoriaethu'r dysgwyr hyn ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Yn ogystal â'r heriau hyn, mae sicrhau lleoliadau gwaith buddiol a hanfodol ar gyfer y dysgwyr hyn yn her sylweddol. Mae mwyafrif y dysgwyr hyfforddeiaeth wedi dychwelyd at rywfaint o weithgarwch ar y safle, ac yn ymgymryd â sesiynau dysgu o bell medrau galwedigaethol a hanfodol, gyda thiwtoriaid yn parhau i gyflwyno sesiynau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ategol o bell. Yn aml, caiff y dysgwyr hyn gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg trwy adnoddau ar-lein fel y cwrs Cymraeg Gwaith: Croeso. At ei gilydd, mae darparwyr yn sôn am ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau hyfforddeiaeth y maent yn eu cael ar hyn o bryd gan Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith o'r lefelau maen nhw wedi'u gweld yn y gorffennol.

Ar draws y sector, mae staff darparwyr wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr i edrych ar ymarferoldeb trefnu arsylwadau uniongyrchol asesu dysgwyr neu gwblhau asesiadau ymarferol. Mewn sectorau rheng flaen, yn enwedig mewn iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyflogwyr wedi mynnu bod risg rhy uchel o fod yn agored i COVID-19 ac nid ydynt wedi caniatáu i arsylwadau asesu gael eu cynnal nac i aseswyr fynd i mewn i'r gweithle. Mae hyn yn arafu cynnydd mewn ffordd ymarferol ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae'r cyfnodau clo diweddar mewn awdurdodau lleol yn cyfyngu'n ddifrifol ar y cyfleoedd a gaiff darparwyr i fod yng nghwmni eu dysgwyr yn y gweithle. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent fod wedi ei wneud fel arall yn casglu tystiolaeth o'r gweithle ac yn cwblhau asesiadau ymarferol. Er bod cyrff dyfarnu wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd, nid yw hyn yn gyson nac yn amserol, ac o ganlyniad, ni fydd carfan fawr o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau o fewn y graddfeydd amser penodol. Fodd bynnag, mae'r dysgwyr hyn yn gweithio i

ddatblygu'r medrau theori a'r wybodaeth angenrheidiol, ac mewn nifer o achosion, maent yn datblygu medrau ehangach o ganlyniad i argyfwng COVID-19.

Mae llawer o gyflogwyr wedi derbyn dull dysgu cyfunol yn ystod cyfnod COVID-19, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o bortffolios electronig. Fodd bynnag, mae cynorthwyo dysgwyr i fynd at gynnwys ar-lein yn gallu bod yn fwy o her yn y gweithle. Efallai na fydd gofod ar gael gan gyflogwyr i hwyluso dysgu neu asesu, a gallai systemau diogeledd atal mynediad at y rhyngrwyd neu gyfyngu ar gofnodi tystiolaeth portffolio ar ffurf ffotograffau. Yn aml, mae gan gyflogwyr llai adnoddau cyfyngedig, ac mae cyflogwyr dan gymaint o bwysau ar hyn o bryd fel nad oes ganddynt lawer o amser i gynorthwyo dysgwyr â'u gweithgareddau ar-lein.

Yn ddiweddar, mae Cymdeithas Goginio Cymru wedi cynhyrchu fideos ar-lein am wahanol dechnegau coginio a themâu coginio, fel bwyd i wneud i chi deimlo'n dda a goresgyn iselder. Mae'r staff mewn un darparwr wedi creu llawer o'r adnoddau hyn ar gyfer y Gymdeithas.

Mae nifer o ddarparwyr yn defnyddio gweithdai digidol i ddysgwyr rannu eu harbenigedd digidol, a chrëwyd amserlen gyflwyno amrywiol i weddu i ymrwymiadau dysgwyr o ran gweithio gartref, teulu a gwarchod eu hunain. Ailagorwyd canolfannau hyfforddi yn dilyn y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Mae darparwyr yn gweithio o gwmpas anawsterau dysgwyr sy'n mynychu canolfannau hyfforddi o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, a'r ffaith fod rhaid rhoi trefniadau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Ychydig iawn o ddarparwyr yn unig sydd â'r gofod a'r capasiti o fewn eu canolfannau hyfforddi i ddarparu ar gyfer dysgwyr yn ddiogel, heb anhawster.

Ar draws y sector, mae staff yn gweithio o gartref pan fydd yn briodol, a gallant fanteisio ar ystod yr offer sydd eu hangen arnynt. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio ar les, dysgu digidol, platfformau cyflwyno a datblygu adnoddau. I ddechrau, roedd y capasiti i staff darparwyr ddatblygu eu medrau digidol yn gymysg, gydag angen i nifer sylweddol o staff gael eu mentora a'u cynorthwyo i wneud y newidiadau i weithio ar-lein. O ganlyniad, mae tiwtoriaid, hyfforddwyr ac aseswyr wedi dod yn fwy hyderus a chymwys wrth rannu dogfennau yn ystod sesiynau hyfforddi ar-lein. Fodd bynnag, mae datblygiad parhaus medrau digidol ar gyfer staff darparwyr i gefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i fod yn her sylweddol ar draws y sector.

## Recriwtio a chofrestru

Mewn dysgu yn y gwaith, mae amrywiaeth ranbarthol mewn recriwtio ar draws meysydd dysgu. Mae nifer o sectorau wedi cael eu taro'n galetach na rhai eraill, gan gynnwys peirianneg awyrenegol, lletygarwch ac arlwyo, ac mae amrywiadau rhanbarthol mewn peirianneg ac adeiladu. Nid yw recriwtio wedi llwyddo'n dda yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch, sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywed darparwyr fod y meysydd dysgu hyn yn well ar y cyfan na'r hyn a feddyliwyd i ddechrau ar draws nifer o ranbarthau. Dywed darparwyr fod recriwtio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gryf ar y cyfan, gyda galw o ran rolau clinigol y GIG.

## Ymgysylltiad dysgwyr

Yn ystod dechrau'r pandemig, roedd diffyg ymgysylltiad gan nifer o grwpiau dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr o raglenni lefel uwch, fel prentisiaid uwch. Mae hyn oherwydd bod angen cymorth wyneb yn wyneb ar y dysgwyr hyn, yn ogystal â'r problemau sy'n deillio o'r ffaith y bu'n ofynnol i ddysgwyr weithio o gartref a bod rhaid iddynt ddarparu gofal plant ac addysg yn y cartref ar yr un pryd. Ar hyn o bryd, dywed darparwyr fod ymgysylltiad dysgwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, fel yr adlewyrchir mewn cyflwyniadau data presenoldeb misol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae amrywio ar hyn o bryd yn y ffyrdd y mae darparwyr yn mesur ymgysylltiad dysgwyr. Mae staff darparwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ymgymryd â'u dysgu, ac mae llawer o staff yn creu ac yn defnyddio adnoddau teilwredig i gefnogi eu dysgwyr. Fodd bynnag, mae ystod, nifer ac ansawdd yr adnoddau addysgu a dysgu ar-lein yn amrywiol o hyd.

Mae darparwyr yn cynnal sesiynau adolygu cynnydd dysgwyr yn ddigidol o bell gyda'u dysgwyr. Yn gyffredinol, mae staff hyfforddi yn hyblyg yn addasu eu horiau gweithio i gefnogi cyflwyno'r rhaglen hyfforddi yn hyblyg. Mae staff hyfforddi yn cynnal gwiriadau lles dysgwyr arferol ac yn targedu ymyriadau a chymorth priodol pan nodir angen.

Mae llawer o ddysgwyr yn poeni am y posibilrwydd o gael eu diswyddo, ac mae hyn hefyd yn rhoi llawer o bwysau ar aseswyr sydd bellach yn ymgymryd â llawer mwy o gymorth bugeiliol a lles na'r hyn maen nhw'n arfer ei ddarparu.

Cynlluniodd staff mewn un darparwr gyfres o fodiwlau hyfforddiant ar gyfer dysgwyr sydd wedi cael eu diswyddo. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cais am swydd, ysgrifennu llythyrau, medrau cyfweld, magu hyder a rheoli cyllid. Mae staff yn cynnal sesiynau holi ac ateb byw gyda dysgwyr sydd wedi cael eu diswyddo i roi cyfle iddynt ddysgu am gyfleoedd mewn meysydd dysgu eraill. Mae un enghraifft o hyn yn canolbwyntio ar sut beth yw gweithio ym maes lletygarwch o fewn y sector iechyd a gofal, gyda gwybodaeth am amodau gwaith, cyfleoedd gwaith a rheoli a phecynnau cyflog.

## Iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff

Dywed darparwyr fod mwyafrif y staff yn orbryderus ynglŷn â dychwelyd i gyflwyno gwersi wyneb yn wyneb, ond eu bod wedi cael cymorth buddiol i'w helpu i oresgyn eu pryderon. Ar draws darparwyr, cryfhawyd y cyfathrebu ymhellach yn ystod argyfwng COVID-19, gyda rheolwyr ac arweinwyr yn cysylltu'n rheolaidd â staff i roi diweddariadau a chymorth.

Mewn un darparwr, mae pob un o'r staff yn elwa ar gyflwyno hanner diwrnod ar ddydd Gwener, sy'n eu galluogi i gymryd amser allan o'r busnes, a chanolbwyntio ar eu lles a'u hiechyd eu hunain. Mae staff yn defnyddio'r amser hwn i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu ymlacio sy'n gweddu orau iddyn nhw.

Mae pob darparwr yn dweud bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein. Mae nifer o ddarparwyr wedi gweld cynnydd yn nifer y

pryderon ynghylch diogelu, gan gynnwys pryderon cyffredinol a adroddir, ac atgyfeiriadau at yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol. Yn gyffredinol, dywed darparwyr fod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau cwnsela. Mae'r rhain am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys gorbryder, iselder, hunan-niwed a phroblemau teuluol. Eleni, mae tuedd ar i fyny yn effaith COVID-19 ar bobl ifanc sydd â phroblemau fel iechyd meddwl a pherthnasoedd afiach. Mae nifer o ddarparwyr yn sôn am gynnydd yn nifer y staff sy'n adrodd am broblemau o ganlyniad i COVID-19 hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys hunanynysu, gorbryder a gofidiau ynglŷn â chynorthwyo dysgwyr ar-lein.

Mewn un darparwr, caiff staff a dysgwyr fynediad at fanc bwyd lleol sy'n cael ei redeg gan elusen y mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth ag ef. Mae'r cogydd yn ysgol goginio'r darparwr yn cynllunio ac yn creu prydau bwyd syml a maethlon ar gyfer dysgwyr, staff a'r gymuned. Yn ystod cyfnod COVID-19, mae tua 72 o deuluoedd bob wythnos wedi cael eu cefnogi gan y fenter hon.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn hyrwyddo materion iechyd meddwl trwy gyfathrebu'n rheolaidd â dysgwyr i helpu cynnal ymgysylltu a chymhelliant. Mae darparwyr yn rhannu ystod o ddogfennau a chysylltiadau, yn ogystal â manylion am sut i godi unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

Mae darparwyr yn cydnabod bod llawer o brentisiaid wedi wynebu heriau wrth weithio gartref. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn hyblyg â thargedau a therfynau amser lle mae dysgwyr dan bwysau o ganlyniad i sefyllfa COVID-19. Mae llawer o staff wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ymwybyddiaeth a materion iechyd meddwl. Mae darparwyr wedi rhoi pwyslais clir ar ddiogelu ac aros yn ddiogel ar-lein, ac wedi codi ymwybyddiaeth am faterion fel sgamiau ar-lein a thwyll.

Mae amrywio ar draws darparwyr wrth hawlio cyllid ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Nid yw ychydig iawn o ddarparwyr yn hawlio unrhyw gyllid cymorth dysgu ychwanegol ar hyn o bryd, nid yw ychydig iawn ohonynt wedi cyflwyno unrhyw hawliadau ychwanegol ers y cyfnod clo, tra bod rhai ohonynt yn defnyddio'r cyllid hwn yn rheolaidd.

## Galwadau ymgysylltu addysg bellach:  Medi – Hydref 2020

### Symud ymlaen gyda dysgu cyfunol

Ers y gyfres ddiwethaf o alwadau ymgysylltu, mae colegau wedi parhau i fireinio amserlenni cyrsiau ac wedi cynnal cyfran sylweddol o ddysgu o bell ar y rhan fwyaf o raglenni dysgu tra'n ailgyflwyno dysgu wyneb yn wyneb ar y safle yn raddol. Cynhaliwyd twf yn y defnydd o ddysgu cydamserol ar-lein, yn ogystal â chynnydd pellach yn nifer yr adnoddau ar-lein sy'n cael eu lanlwytho i amgylcheddau dysgu rhithwir a phyrth ar-lein ar gyfer dysgwyr a staff.

Mae colegau wedi asesu gallu digidol y dysgwyr a'r staff newydd niferus sydd wedi dechrau eleni, ac yn parhau i fonitro dysgwyr a staff presennol o ran cyfle i ddefnyddio offer addas, cysylltedd digidol a medrau a phrofiad digidol.  Mae offer sylweddol ychwanegol wedi cael eu rhoi ar fenthyg i ddysgwyr, a'u darparu i staff yn ogystal â lledaenu arweiniad yn eang ar sut i gael mynediad at blatfformau ar-lein, a'u defnyddio.  Mae colegau wedi croesawu'r cymorth cyllid ychwanegol y trefnwyd ei fod ar gael trwy Lywodraeth Cymru i'w helpu i ariannu costau'r adnoddau ychwanegol hyn.  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o golegau yn wynebu amseroedd aros sylweddol gan gyflenwyr cyn iddynt gael offer pellach sydd ei angen i fodloni gofynion parhaus am adnoddau.  Yn y tymor byr, mae llawer o golegau yn addasu adnoddau presennol, fel y rhai o drolïau gliniaduron a ddefnyddir mewn ystafelloedd dosbarth i ddiwallu anghenion brys y dysgwyr.

Mae colegau bellach yn defnyddio ystod ehangach o ddangosyddion, yn enwedig dadansoddeg data yn gysylltiedig â phlatfformau ar-lein, i fonitro ymgysylltiad dysgwyr.  Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae dangosyddion i fesur ansawdd cyffredinol yr ymgysylltu neu'r effaith ar ddysgu.  Roedd gwersi cynnar a ddysgwyd o'r cyfnod clo cychwynnol yn cynnwys yr angen i symud oddi wrth y ffocws cychwynnol ar allu medrau digidol i ffocws cynyddol ar gefnogi datblygiad addysgeg ar gyfer dysgu cyfunol a dysgu ar-lein.

Mae 'arolygon cyflym' o ddysgwyr a staff a chyfarfodydd tîm rheolaidd â staff yn parhau i ddarparu adborth defnyddiol i lywio gwerthuso parhaus o ran y modelau dysgu cyfunol, a helpu nodi meysydd i'w gwella.  Er enghraifft, mae sawl coleg bellach yn gwneud defnydd llawer ehangach o we-gamerâu i hwyluso cyflwyno cydamserol i ryw hanner grŵp cwrs, tra bydd y dysgwyr sy'n weddill yn ymgysylltu o bell er mwyn cynnal y pellter cymdeithasol angenrheidiol mewn ystafelloedd addysgu.

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio a dysgwyr wedi dychwelyd i safleoedd coleg am rywfaint o'u hamser dysgu, o leiaf, mae colegau wedi datblygu cynlluniau wrth gefn yn seiliedig ar symud yn ôl a blaen ar hyd continwwm dysgu llawn ar y safle i gyflwyno'n llawn o bell, yn dibynnu ar anghenion y cwricwlwm, arweiniad swyddogol a'r sefyllfa COVID-19 yn lleol ac yn genedlaethol.  Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf hanner eu gweithgareddau dysgu o bell ar hyn o bryd.  Mae ychydig iawn o ddysgwyr, fel y rhai sy'n dilyn rhaglenni medrau byw yn annibynnol a SSIE, bellach yn cael y rhan fwyaf o'u dysgu, neu'u holl ddysgu, ar y safle, o ganlyniad i anawsterau yn cyflwyno'r meysydd darpariaeth hyn yn effeithiol o bell. Mae dysgu llawn o bell hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fydd yn ofynnol i gwrs cyfan neu 'grŵp swigen' o ddysgwyr hunanynysu neu pan fydd safle coleg ar gau dros dro.  Mae colegau'n rhagweld y

bydd dysgu cyfunol yn parhau ar lawer o gyrsiau hyd y gellir rhagweld, gyda defnydd parhaus o gyflwyno cyfunol y tu hwnt i'r pandemig. Serch hynny, mae colegau'n rhagweld symudiadau pellach ar hyd y continwwm i gynyddu faint o amser mae dysgwyr yn ei dreulio yn y coleg, pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny.

Gall dysgwyr medrau byw yn annibynnol mewn un coleg fynychu eu holl ddosbarthiadau ar y safle. Sefydlwyd ardal deilwredig ddynodedig yn y coleg i ddarparu ar gyfer anghenion dros 70 o ddysgwyr medrau byw yn annibynnol. Cynhaliwyd asesiadau risg unigol manwl a lluniwyd cynlluniau gofal iechyd i sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel yn y coleg. Mae pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n dda, ac maen nhw, ynghyd â'u rhieni a'u gofalwyr, yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y ddarpariaeth ar y safle wedi ailddechrau.

Caiff presenoldeb dysgwyr a staff ar y safle ei reoli gan y colegau gan gymhwyso gofynion cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn barhaus yn adeiladau'r coleg, ac o'u cwmpas. Mae meintiau grŵp llai, blaenoriaethu sesiynau ymarferol, rheoli dysgwyr mewn 'grwpiau swigod', amrywio diwrnodau presenoldeb dysgwyr, amrywio amserlenni ac amseroedd dechrau, gorffen ac egwyl rhwng gwersi, diwrnodau coleg estynedig ac amserlenni mwy cywasgedig ar gyfer dysgwyr ar y safle, i gyd wedi eu cynnwys mewn strategaethau cyflwyno a fabwysiadwyd gan golegau i helpu rheoli risgiau trosglwyddo'r feirws.

Wrth benderfynu ar y cyfuniad o wahanol weithgareddau dysgu a dulliau cyflwyno, ystyrir natur y maes pwnc, gofynion cyrsiau a chymwysterau, lefel y cwrs, natur ac arddull ddysgu'r dysgwyr. Mae ffactorau eraill a ystyrir yn cynnwys argaeledd adnoddau, gan gynnwys gweithdai, salonau a chyfleusterau arbenigol eraill ar gyfer gweithgareddau ymarferol. Ffactor arall posibl sy'n dylanwadu ar gyfer colegau sy'n cyflwyno darpariaeth UG a Safon Uwch amser llawn yw natur y cyflwyno sy'n cael ei mabwysiadu ar gyfer darpariaeth debyg mewn ysgolion a cholegau cystadleuol cyfagos, yng Nghymru a thros y ffin yn Lloegr. Er enghraifft, mewn un coleg, caiff yr holl ddosbarthiadau UG a Safon Uwch eu cyflwyno wyneb yn wyneb oni bai fod unrhyw grwpiau o ddysgwyr yn hunanynysu. Mae cymorth targedig unigol a blaenoriaeth ar gyfer presenoldeb ar y safle hefyd yn cael eu rhoi i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais, lle bo'n briodol.

Mae dau goleg wedi ymestyn y ffyrdd y maent yn cynorthwyo dysgwyr i wella eu medrau Saesneg a mathemateg TGAU. Mae un coleg wedi ehangu ei wersi a'i sesiynau cymorth Saesneg a mathemateg fel eu bod ar gael gyda'r nos, ac yn ystod y dydd yn ogystal, trwy sesiynau cydamserol ar-lein, er mwyn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gall dysgwyr sy'n ailsefyll y pynciau hyn mewn TGAU ddewis o blith cyfres o weithdai cymorth dyddiol. Mae dysgwyr a staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a ddarperir gan y dull hwn wrth gynorthwyo dysgwyr i ennill y cymwysterau pwysig hyn. Mae coleg arall yn defnyddio bot adborth, bot dysgu personoledig ar gyfer cymwysterau mathemateg a Saesneg TGAU. Mae'r bot adborth yn anfon cynnwys personoledig at y dysgwr yn seiliedig ar adborth a roddwyd gan ei athro. Caiff cymhwysiad y feddalwedd ei hintegreiddio ym mhorth y dysgwr, a dyfernir bathodynnau rhithwir i ddysgwyr pan fyddant yn ymgysylltu â'r cynnwys. Mae'r adnoddau yn gysylltiedig â meysydd testun penodol, felly mae'r dysgwr ond yn adolygu meysydd y pynciau hynny lle mae angen iddo ddatblygu ei fedrau ymhellach.

Mae arweinwyr a staff colegau wedi ymateb yn dda i'r heriau niferus sy'n deillio o'r cyfnod clo ac wedi ailafael mewn gweithgareddau ar y safle yn ddiweddar. Maent wedi dweud bod y rhan fwyaf o staff wedi dangos hyblygrwydd a gwydnwch gwych yn addasu yn ôl ffyrdd newydd o weithio mewn cyfnod digynsail ac anodd. Mae colegau'n parhau i ddarparu cymorth a chyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn gysylltiedig â dysgu ar-lein a dysgu cyfunol – gan gynnwys cynadleddau rhithwir, sesiynau hyfforddi ar-lein, cymorth teilwredig ar gyfer grwpiau unigol a grwpiau bach, trwy staff fel 'hyrwyddwyr TG' ac anogwyr addysgu a dysgu, yn ogystal â thrwy drefnu bod adnoddau ar gael trwy byrth ar-lein. Mae staff hefyd yn cael cymorth i'w helpu i ganfod ffyrdd o gyflwyno dysgu ar y safle yn effeithiol pan fyddant yn wynebu'r heriau cynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth ddysgwyr bob amser, a phan fydd gofyn iddynt addysgu ar y safle a dysgwyr o bell o fewn yr un dosbarth ar yr un pryd. Mae timau staff hefyd yn darparu cymorth ar y ddwy ochr ymhlith cyfoedion, a rhennir enghreifftiau o arfer dda ar draws ffiniau adrannol mewn rhai achosion.

Mae un coleg wedi rhannu manylion am 8 model dysgu cyfunol â'i staff trwy borth ar-lein, a thrwy sesiynau dysgu proffesiynol cysylltiedig. Mae hyn yn galluogi staff i ddewis a rhoi cynnig ar fodelau cyflwyno sy'n gweddu orau i gynnwys eu cwricwlwm ac anghenion dysgwyr yn hytrach na dilyn dull 'un maint sy'n gweddu i bawb'. Mewn coleg arall, defnyddir arsyllfa ddysgu bresennol y coleg i rannu hyfforddiant datblygiad proffesiynol ar addysgu a dysgu cyfunol a dysgu o bell. Mae uwch arweinwyr wedi datblygu canllawiau arfer arloesol ychwanegol o ganlyniad i arolwg staff a gynhaliwyd ym mis Medi, ac mae'r canllawiau hyn yn hygyrch ar-lein trwy'r arsyllfa. Mae'r arsyllfa hefyd yn cynnwys adnoddau eraill a fideos sy'n ffurfio pecyn dysgu proffesiynol cydlynus ar ddatblygu addysgu.

Mae cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr ag anghenion arbennig hefyd yn cael ei gynnal cymaint ag y bo modd. Dywed colegau eu bod wedi esblygu darpariaeth cymorth ar hyd llwybr cyfunol tebyg i weithgareddau dysgu wrth i gyfyngiadau'r safle lacio. Mewn llawer o achosion, mae colegau'n blaenoriaethu dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais ar gyfer presenoldeb a chymorth ar y safle. Mae staff fel cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth i unigolion a grwpiau bach trwy gyfuniad o weithgareddau ar-lein a gweithgareddau wyneb yn wyneb. Er enghraifft, mae colegau'n gwneud defnydd cynyddol o nodweddion fel 'ystafelloedd ymneilltuo' sydd ar gael trwy blatfformau ar-lein fel Microsoft Teams, Google Meet a Classrooms, a Zoom, i ddarparu cymorth i ddysgwyr a chymorth dysgu yn ystod sesiynau ar-lein. Caiff cymorth arall fel cwnsela a chymorth gan swyddog lles eu cynnal dros y ffôn, a thrwy gyswllt ar-lein neu gyswllt wyneb yn wyneb hefyd, mewn rhai achosion. Mae defnydd cynyddol o'r 'swyddogaethau recordio' o fewn platfformau cyfarfod ar-lein hefyd yn helpu colegau i gynorthwyo dysgwyr sy'n ei chael yn anodd cymryd rhan mewn sesiynau amserlenedig neu sy'n dymuno ailedrych ar sesiynau er mwyn atgyfnerthu eu dysgu.

Mae addysgu ac asesu pynciau ymarferol yn parhau i fod yn hynod heriol o ganlyniad i gyfyngiadau ar feintiau grwpiau mewn ardaloedd penodol i fodloni gofynion cadw pellter cymdeithasol, gyda phwysau dilynol o ran argaeledd gofod, a chostau. Mae cyfleoedd lleoliadau gwaith wedi'u cyfyngu'n fawr o hyd o ganlyniad i'r pandemig, er bod cyfyngiadau wedi cael eu llacio'n raddol ar draws llawer o sectorau galwedigaethol, ac mae hyn hefyd yn dylanwadu ar y cyfuniad cyffredinol o

weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu mewn rhai meysydd pwnc. Mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae gofynion gorfodol yn ymwneud ag oriau lleoliadau, mae colegau a dysgwyr yn hynod bryderus am effaith yr anawsterau hyn ar allu dysgwyr i fodloni gofynion asesu cymwysterau eleni. Mae arweinwyr colegau yn sôn am eu pryderon ynghylch diffyg arweiniad clir, ac oedi o ran derbyn arweiniad, gan reoleiddwyr a sefydliadau dyfarnu ar unrhyw drefniadau diwygiedig o ran asesu ac achredu ar gyfer 2020-2021 Heb arweiniad o'r fath, mae colegau'n gwneud eu gorau i gwmpasu ystod o wahanol senarios posibl ar gyfer asesu wrth gynllunio eu cyflwyno.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd yn parhau i esblygu i adlewyrchu'r defnydd llawer ehangach o ddulliau dysgu cyfunol. Yn yr achosion gorau, mae'r trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith trwy drafodaethau ar y cyd â staff er mwyn osgoi rhoi gormod o bwysau ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn gyffredinol, mae colegau wedi mabwysiadu dull cyffyrddiad ysgafn o ran sicrhau ansawdd cyflwyno dysgu cyfunol yn ystod dechrau'r pandemig i gydnabod y pwysau y mae staff eisoes yn eu hwynebu, a dealltwriaeth fod llawer o staff yn cyflwyno dysgu mewn ffyrdd y mae llawer o staff yn anghyfarwydd â nhw. At ei gilydd, y dull sy'n cael ei fabwysiadu yw dull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gymorth gyda llai o bwysau uniongyrchol ar graffu. Nod y dull hwn yw annog arloesi ac arbrofi, yn ogystal â chaniatáu cyfnod ar gyfer gwella medrau a meithrin profiad. Mae colegau'n nodi bod cydweithio â chynrychiolwyr staff hefyd yn helpu colegau i weithio eu ffordd trwy senario anodd, a rhoi dulliau sensitif ar waith ar gyfer gweithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys protocolau ar gyfer arsylwi cyflwyno sesiynau ar-lein mewn ychydig o achosion.

Er bod arfer ddiddorol ac arloesol sy'n dod i'r amlwg yn cael ei nodi, rhaid bod yn ofalus wrth amlygu'r rhain fel arfer 'effeithiol' hyd nes gellir gwerthuso'r effaith ar gynnydd a safonau dysgwyr yn fwy trylwyr. Fel y dywedodd un arweinydd coleg, ni ddylid tanamcangyfrif gwerth 'gwneud pethau syml yn dda iawn' yn ystod y cyfnod anodd a digynsail hwn.

## Recriwtio a chofrestru

Mae colegau'n nodi bod rhai dysgwyr a gafodd raddau wedi'u hasesu gan ganolfannau yn yr haf yn ei chael yn anodd ymdopi ar eu cyrsiau newydd, naill ai yn sgil diffyg medrau astudio'n annibynnol neu fylchau â medrau llythrennedd a rhifedd.

Parhaodd llawer o golegau i dderbyn cofrestriadau hwyr tan hanner tymor mis Hydref, ac fe wnaethant hefyd annog dysgwyr i newid cyrsiau, yn hytrach na rhoi'r gorau i fynychu'r coleg, lle nad oedd dewisiadau cyrsiau cychwynnol yn addas. Pan fydd yn ymddangos bod cofrestriadau mewn cyrsiau penodol, fel peirianneg, adeiladu neu drin gwallt a therapi harddwch, yn uwch na'r disgwyl, priodolir hyn yn bennaf i lefelau isel o leoedd gwag ar brentisiaethau o ganlyniad i'r pandemig parhaus.

## Ymgysylltiad dysgwyr

Mae colegau'n parhau i ddatgan bod ymgysylltiad dysgwyr ar draws y rhan fwyaf o raglenni yn gryf, ar y cyfan. Er bod colegau'n dechrau defnyddio ystod ehangach o ddadansoddeg data yn gysylltiedig ag ymgysylltiad dysgwyr, fel y rhai sydd ar gael

trwy blatfformau ar-lein, gan gynnwys Microsoft a Google, mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw werthusiad trylwyr o effeithiolrwydd cyffredinol ymgysylltiad dysgwyr.

Mae athrawon TG mewn un coleg yn defnyddio cymhwysiad negeseua gwib am ddim a gynlluniwyd ar gyfer creu cymunedau ymhlith pobl sy'n chwarae gemau i gyfathrebu a rhyngweithio â'u dysgwyr. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan ddysgwyr, a dywed staff fod lefelau calonogol o ymgysylltu pellach.

Dywed pob coleg eu bod wedi nodi dysgwyr sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu neu gynnal cymhelliant â gweithgareddau dysgu o bell. Yn aml, mae gwasanaethau a thimau lles dysgwyr yn darparu cymorth gwerthfawr i staff addysgu trwy olrhain diffyg presenoldeb dysgwyr mewn sesiynau ar-lein, ac ar gyfer y rhai sy'n absennol o wersi yn y coleg yn ogystal. Mae hyn yn helpu colegau i uchafu lefelau ymgysylltu, yn ogystal â nodi'r dysgwyr hynny a allai elwa ar gymorth ychwanegol a chymorth targedig. Mae nifer sylweddol o ddysgwyr na wnaethant allu cwblhau eu cymwysterau y llynedd, yn bennaf o ganlyniad i gyfyngiadau yn deillio o ofynion asesu, yn cael eu blaenoriaethu a'u cefnogi i gwblhau'r cymwysterau hyn mor gyflym ag y bo modd eleni.

Mae pob coleg wedi parhau i gynnal arolygon ers y cyfnod clo i gael adborth ar ystod eang o faterion gan ddysgwyr a staff. Mae colegau wedi dadansoddi atebion ac wedi rhoi camau gweithredu priodol ar waith ar gyfer gwella, pan fydd angen. Mae llawer o golegau wedi dweud wrthym fod dysgwyr a staff yn awyddus i gyflwyno dysgu cyfunol i barhau, hyd yn oed pan fydd yn ddiogel i gynyddu cyfran y cyflwyno ar y safle ymhellach. Maent hefyd yn dweud bod dysgwyr a staff yn hynod bryderus ynglŷn â pheidio â gwybod beth fydd y trefniadau asesu terfynol ar gyfer 2021.

Mae dysgwyr y nodwyd eu bod mewn risg benodol o ymddieithrio o ddysgu yn cael eu cefnogi gan athrawon a staff cymorth arbenigol, fel y bo'n briodol. Yn ystod y cyfnod clo, roedd y rhan fwyaf o gymorth yn cael ei ddarparu o bell, er enghraifft dros y ffôn, er bod rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb wedi digwydd, gan gynnwys ymweliadau gwirio lles â chartrefi dysgwyr y collwyd cyswllt â nhw, neu ble nodwyd bod risgiau uchel iawn.

Dywed colegau eu bod yn gweithio'n galed i nodi a chefnogi'r dysgwyr hynny a allai fod yn ei chael yn anodd bodloni gofynion eu cyrsiau, er enghraifft lle mae'n ymddangos bod effaith graddau wedi'u hasesu gan ganolfannau ar lefel TGAU yn gorbwysleisio gallu dysgwyr, naill ai'n gyffredinol neu mewn pynciau penodol fel Saesneg a mathemateg. Er enghraifft, mae llawer o golegau wedi nodi bod cyfran ychydig yn uwch o ddysgwyr nag oedd mewn blynyddoedd blaenorol yn astudio rhaglenni galwedigaethol Safon Uwch neu lefel 3 sydd wedi cael trafferth yn trosglwyddo i astudio ar lefel uwch. Mae cyfyngiadau o ran faint o waith ymarferol a wnaed y llynedd ar lawer o gyrsiau galwedigaethol hefyd yn cyfrannu at yr heriau sy'n wynebu ychydig o ddysgwyr wrth iddynt symud ymlaen i ddilyn cyrsiau ar lefel uwch. Mae llawer o golegau yn annog dysgwyr i newid yn hytrach na gollwng cyrsiau lle maent yn ei chael yn anodd ymdopi, hyd yn oed gyda darpariaeth cymorth ychwanegol.

## Iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff

Mae colegau wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau allweddol, gan gynnwys canllawiau diogelu a diogelwch ar-lein, i adlewyrchu cyd-destun ac effaith COVID-19 a gwneud yn siŵr eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

Ers dychwelyd at drefniadau gweithio ehangach ar y safle ar gyfer staff, a phresenoldeb cynyddol dysgwyr yn bersonol, mae'r rhan fwyaf o golegau wedi trefnu bod cymorth wyneb yn wyneb ar gael yn ehangach, yn amodol ar asesiadau risg ac addasiadau i helpu cynnal pellter cymdeithasol. Mewn lleiafrif o golegau, mae cyflwyno, neu weithredu parhaus, trefniadau brysbennu, wedi bod yn gysylltiedig â hyn i flaenoriaethu cyswllt wyneb yn wyneb yn unol ag angen, ac i helpu lliniaru risgiau parhaus trosglwyddo'r feirws.

Mae colegau wedi datblygu a gweithredu strategaethau a gweithdrefnau i gefnogi dysgwyr o bell yn ystod argyfwng COVID-19. Trefnwyd hefyd fod adnoddau lles, dogfennau arweiniad a gwybodaeth am gymorth ar-lein ar gael i'r holl ddysgwyr, a diwygiwyd systemau atgyfeirio ar gyfer diogelu a chymorth arbenigol er mwyn gweddu i'r sefyllfa ddigynsail sy'n wynebu dysgwyr a staff.

Mewn un coleg, mae anogwyr cynnydd a thiwtoriaid personol yn trefnu sesiynau i gefnogi iechyd corfforol dysgwyr fel rhan o strategaeth les gyffredinol y coleg. Caiff dysgwyr a staff fynediad hefyd at ardaloedd iechyd a lles dynodedig ar y pyrth dysgwyr a staff.

Eir i'r afael â materion diogelu trwy ddefnyddio protocolau colegau gyda chyswllt priodol â'r holl asiantaethau allanol, fel sy'n ofynnol. Mae lleiafrif o golegau wedi nodi bod nifer yr atgyfeiriadau diogelu wedi gostwng yn ystod y cyfnod clo, ond wedi dechrau cynyddu yn unol â lefelau disgwyliedig ers i ddysgwyr ddechrau dychwelyd i gampysau colegau. Mae colegau wedi cynyddu'r pwyslais ar annog dysgwyr a staff i aros yn ddiogel ar-lein i adlewyrchu cyffredinolrwydd trefniadau astudio gartref a gweithio gartref. Maent wedi dosbarthu'r wybodaeth a'r arweiniad defnyddiol diweddaraf i helpu dysgwyr a staff i wneud yn siŵr bod ganddynt fynediad diogel o bell at systemau'r coleg.

Mae colegau wedi parhau i drefnu bod gwasanaethau cwnsela ar gael i ddysgwyr a staff pan fydd angen. Mae colegau'n cydnabod y bu cynnydd mewn pryderon am iechyd meddwl ymhlith dysgwyr a staff, yn enwedig mewn perthynas â gorbryder ac iselder. Mae bron yr holl gymorth cwnsela yn parhau i gael ei ddarparu o bell dros y ffôn neu ar-lein, a phrin yw'r colegau hyd yma sy'n cynnig dychwelyd at sesiynau wyneb yn wyneb o ganlyniad i bryderon parhaus am y risgiau sy'n gysylltiedig â chyswllt agos maith wyneb yn wyneb yn ystod sesiynau cwnsela. Mewn ychydig o achosion, nid oedd colegau'n gallu cadarnhau p'un a oedd cwnselwyr wedi cael hyfforddiant penodol i ymestyn a diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau i gynnwys cwnsela ar-lein neu dros y ffôn.

Mae un coleg wedi cynyddu capasiti ei wasanaeth cwnsela i ymateb i bandemig COVID-19. Roedd cwnselydd o'r coleg ar gael i gefnogi dysgwyr trwy gydol cyfnod yr haf, ac yn ystod y tymor yn ogystal, ac mae capasiti cyffredinol bellach wedi'i gynyddu i 1.5 o staff cyfwerth ag amser llawn.

## Galwadau ymgysylltu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned: Medi – Hydref 2020

### Symud ymlaen gyda dysgu cyfunol

Ers y gyfres ddiwethaf o alwadau ymgysylltu, mae'r holl bartneriaethau wedi parhau i ganolbwyntio ar wneud eu gorau i aros mewn cysylltiad â'r dysgwyr sydd anoddaf eu cyrraedd, a helpu sicrhau bod gan ddysgwyr ffyrdd o barhau â'u dysgu. Mae gan yr holl bartneriaethau blatfformau dysgu ar-lein o ryw fath erbyn hyn. Dywed partneriaethau fod symlrwydd o ran eu defnyddio a mynediad rhwydd yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu. Dywed ychydig o bartneriaethau fod her o ran gweithio o fewn systemau diogeledd TG eu darparwyr partner (coleg neu awdurdod lleol), a sefydlwyd ar gyfer dysgwyr ysgol neu goleg. Dywed yr holl bartneriaethau eu bod wedi gwneud cynnydd yn addasu i'r ffordd newydd hon o weithio, ac maent yn disgrifio 'symudiad diwylliannol' yn y ffordd y maent yn darparu cyrsiau, yn ymgysylltu â dysgwyr ac yn hyfforddi staff.

Er nad yw unrhyw bartneriaethau wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol, mae pob un ohonynt wedi myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd. Dywed pob un o'r partneriaethau fod ganddynt gynlluniau wrth gefn tra ystyriol, ond nid yw'r un ohonynt wedi disgrifio'r rhain yn llawn yn ysgrifenedig. Yn gyffredinol, mae blaenoriaethau partneriaethau wedi'u seilio ar y canlynol:

- cadw'r dysgwyr sydd ganddynt eisoes er mwyn iddynt allu parhau â'u dysgu
- recriwtio dysgwyr newydd, asesu anghenion digidol dysgwyr a sicrhau bod ganddynt fynediad at ddyfeisiau addas a'r rhyngrwyd
- gwella medrau dysgwyr newydd a'u helpu i fod yn annibynnol yn ddigidol

Rhoddwyd cyfyngiadau lleol newydd ar waith yn gyflym iawn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Caiff hyn effaith wahanol mewn gwahanol leoedd. Er enghraifft, nid yw llyfrgelloedd mewn un awdurdod lleol sydd dan gyfnod clo yn agored, felly nid ydynt yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio cyfrifiaduron pe byddai eu hangen arnynt, ond mewn ardaloedd eraill, mae canolfannau cymunedol sy'n eiddo i'r awdurdodau lleol, wedi ailagor, a gall darparwyr drefnu dosbarthiadau llai. Ar y cyfan, mae tri chategori i'r patrwm cyflwyno, sef:

- Caewyd pob un o'r canolfannau, neu bron pob un ohonynt, ar gyfer dysgu yn bersonol. Caiff y ddarpariaeth gyfan, neu bron y ddarpariaeth gyfan, ei chyflwyno ar-lein.
- Mae cyfran o ganolfannau'r bartneriaeth ar agor, er bod llai o gapasiti, er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol. Mae dysgu ar-lein yn ychwanegu at gyflwyno yn bersonol. Gellir addasu amserlenni a phatrymau presenoldeb er mwyn galluogi i bobl fynychu bob yn ail wythnos, am wythnosau cyntaf cyrsiau, neu gan roi blaenoriaeth i gyrsiau penodol.
- Mae pob un o'r canolfannau, neu bron pob un ohonynt, ar agor, er bod llai o gapasiti, er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol. Caiff cyrsiau penodol eu blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno yn bersonol. Gellir cyflwyno ychydig o gyrsiau ar-lein yn unig. Paratowyd deunyddiau i gefnogi cyflwyno ar-lein i ychwanegu at gyflwyno yn bersonol, neu maent wrthi'n cael eu paratoi.

Ym mhob achos, mae partneriaethau'n parhau i flaenoriaethu cyflwyno eu cyrsiau cylch gwaith craidd Llywodraeth Cymru, sef medrau hanfodol, SSIE a medrau digidol. Pan fydd modd, maent hefyd yn cynnig neu'n hwyluso cyrsiau hamdden.

Mae cyfran y cyflwyno ar-lein i gyflwyno yn bersonol yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol, fel y disgrifir uchod. Pan fydd canolfannau ar agor, mae partneriaethau yn eu defnyddio i gyflwyno eu cyrsiau blaenoriaeth, a gwella medrau, a pharatoi'r rhai sydd â medrau digidol gwael ar gyfer dysgu ar-lein.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mynegi ffafriaeth am ddysgu yn bersonol, er bod dulliau dysgu cyfunol yn cael eu derbyn yn gynyddol, ac mae lleiafrif ohonynt yn mynegi ffafriaeth am y math hwn o gyflwyno. Mae rhesymau am hyn yn cynnwys:

- arbed amser yn teithio i'r lleoliad, ac oddi yno
- posibilrwydd i weithio'n anghydamserol ar adegau mwy cyfleus ar gyfer bywyd gwaith / cartref / teulu
- mae'n well ganddynt gysur a chyfleustra gweithio o gartref
- gallant ddewis eu cwrs o ystod gyffredinol o ddarparwyr
- lleihau amlygrwydd posibl i COVID-19
- mae'n haws addasu yn unol â ffafriaethau neu anableddau personol; er enghraifft, gall dysgwyr sy'n drwm eu clyw reoli sain recordiadau, neu chwarae recordiad eto i wneud yn siŵr eu bod wedi deall

Ar adeg y galwadau ymgysylltu, nid oedd gan yr un o'r partneriaethau bolisi ffurfiol ar gyfer dysgu cyfunol. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt wedi datblygu set o brotocolau i sicrhau disgwyliadau a ffiniau clir ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr.

Mae mynediad at gyrsiau yn parhau i fod yn broblem i ddysgwyr lefel llythrennedd a Saesneg ar lefel cyn mynediad i lefel mynediad. Er bod partneriaethau wedi cyflwyno dogfennau mewn ystod o'r ieithoedd y mae dysgwyr SSIE yn eu siarad, mae lefel darllen dysgwyr yn isel yn eu hiaith eu hunain yn aml, ac nid ydynt yn deall y dogfennau. Mae tiwtoriaid ar draws y partneriaethau wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gefnogi'r dysgwyr hyn fel eu bod yn parhau â'u dysgu.

Roedd un bartneriaeth wedi datblygu ei hamgylchedd dysgu rhithwir teilwredig ei hun, sy'n cynnwys offeryn cyfarfod rhithwir, yn y gorffennol. Canfu'r bartneriaeth fod yr amgylchedd dysgu rhithwir yn rhwystro rhai dysgwyr, felly fe wnaethant gyflwyno pecyn fideo gynadledda ac ystafell ddosbarth rithwir syml iawn a hawdd ei ddefnyddio, y mae dysgwyr yn ei chael yn haws ymgysylltu ag ef. Mae gweithiwr ieuenctid yn y bartneriaeth hon yn defnyddio un o'u canolfannau i ddarparu cymorth / hyfforddiant tenantiaeth, ac mae wedi datblygu rhaglen ar-lein sy'n rhan o'r amgylchedd dysgu rhithwir. Mae'n bwriadu datblygu cwrs cynefino ar-lein i'w ddefnyddio gyda dysgwyr sy'n gweithio mewn ffordd debyg.

Dywed yr holl bartneriaethau eu bod wedi neilltuo amser ac ymdrech sylweddol i ddatblygu staff. Mae hyn fel arfer wedi canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn cyrraedd safon sylfaenol i ddefnyddio meddalwedd gyfathrebu a'r platfformau addysgu ar-lein a ddefnyddir gan y bartneriaeth (MS Teams, Google Classroom, ac ati). Dywed partneriaethau fod eu staff yn meddu ar ystod ehangach o fedrau digidol na'r hyn roeddent wedi'i ragweld.

Mae lleiafrif o bartneriaethau wedi dechrau cyflwyno hyfforddiant manylach i staff ar addysgeg dysgu cyfunol a dylunio cyrsiau. Mae ychydig ohonynt wedi manteisio ar arbenigedd ehangach eu hawdurdod lleol neu goleg partner i elwa ar fentoriaid digidol neu gymorth arbenigol. Mae'n anos i ddarparwyr gwirfoddol neu'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â choleg neu awdurdod lleol fanteisio ar y math hwn o gymorth. Nid yw'n glir pa mor effeithiol y mae adnoddau a chyfleoedd hyfforddi yn cael eu rhannu rhwng partneriaid mewn partneriaeth neu rhwng partneriaethau.

Mae bron pob partneriaeth bellach yn ystyried sut i hyfforddi staff mewn dysgu cyfunol manylach, gan gynnwys defnyddio hyfforddiant y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) ar gyfer mentoriaid digidol.

Mae pob partneriaeth yn cydnabod bod dysgwyr ar gamau gwahanol o ran eu medrau digidol. Mae bron pob un o'r partneriaethau wedi cynnwys cwestiynau yn y ffurflenni ymrestru a chofrestru i gofnodi gwybodaeth am fedrau digidol dysgwyr a chyfle i ddefnyddio offer, fel eu bod wedi'u hysbysu'n well ynglŷn â sut i'w cynorthwyo. Dywedodd llawer o bartneriaethau eu bod yn cynnwys hyfforddiant medrau digidol mewn sesiynau cychwynnol, er nad yw'r math hwn o ddarpariaeth fuddiol wedi'i datblygu'n dda mewn ychydig iawn o bartneriaethau.

Mewn ychydig o achosion, mae partneriaethau wedi defnyddio'r dull i sicrhau bod eu harbenigwyr TG yn mynd allan i'r gymuned i addysgu pobl ynglŷn â sut i ddefnyddio TG a chael mynediad at ddysgu ar-lein.

Mae un bartneriaeth wedi defnyddio'i harbenigwyr TG allan yn y gymuned i addysgu pobl ynglŷn â sut i ddefnyddio TG a chael mynediad at ddysgu ar-lein. Mae hefyd wedi dechrau cyflwyno rhaglen newydd dysgu i deuluoedd yn seiliedig ar fedrau TG ar gyfer plant a rhieni.

Mae'r cyfle a gaiff dysgwyr i ddefnyddio dyfeisiau addas wedi'u galluogi gan y rhyngrwyd a chysylltiad band eang o ansawdd da yn parhau i fod yn rhwystr rhag cymryd rhan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae bron pob partneriaeth wedi nodi pa rai o'u dysgwyr sy'n wynebu anhawster o ran cael mynediad at offer TG neu fand eang.

Mae pob partneriaeth wedi ceisio sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael cyfle i ddefnyddio offer TG, ac maent wedi darparu gliniaduron, nodiaduron a donglau wi-fi ar gyfer dysgwyr sydd fwyaf mewn angen. Er bod partneriaethau'n croesawu cymorth LlC ar ffurf grantiau ar gyfer offer, ceir beirniadaeth mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y rhain eu cadarnhau / dyfarnu, ac y bu'n rhaid i bartneriaethau wario symiau sylweddol o flaen llaw. Gan fod galw mawr yn fyd-eang am offer TG, mae prisiau ac amseroedd aros wedi cynyddu, gan arwain at gostau uwch i ddarparwyr, ac oedi i ddysgwyr. Mae ychydig iawn o bartneriaethau wedi datblygu ffyrdd arloesol o gyflenwi offer TG.

Mae un bartneriaeth wedi gweithio i sefydlu cynllun i ddod o hyd i noddwyr, er mwyn iddi allu prynu offer a'i 'roi' i ddysgwyr sy'n oedolion, gyda thri mis o ddata am ddim.

Mae bron pob partneriaeth wedi ystyried sut i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae hyn wedi golygu bod y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr ag ADY sy'n oedolion lle na fu dysgu ar-lein yn bosibl wedi cael ei hatal. Mae hyn fel arfer am nad yw lleoliadau addas sy'n caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb wedi bod ar gael.

Mae ychydig o bartneriaethau wedi cynnal archwiliad o feddalwedd i benderfynu pa feddalwedd sy'n gweddu orau i anghenion dysgwyr ag ADY, er enghraifft o ran defnyddio meddalwedd adnabod llais sy'n gadael i'r dysgwr arddweud ei atebion tra bydd y cyfrifiadur yn troi'r atebion llafar yn atebion ysgrifenedig.

Mewn ychydig o achosion, mae'r newid mewn amgylchiadau wedi arwain at ailfeddwl am agweddau traddodiadol tuag at ddysgu ar-lein i rai grwpiau o ddysgwyr. Er enghraifft, mewn cartref preswyl ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed lle na fu mynediad at y rhyngrwyd yn draddodiadol, trefnwyd darpariaeth arbennig i ganiatáu mynediad at ddeunyddiau dysgu ar-lein, ac mae'r grŵp hwn yn parhau â'u cyrsiau medrau hanfodol ar-lein erbyn hyn.

Mae mwyafrif o bartneriaethau wedi dechrau prosesau ansawdd sy'n ystyried cyflwyno ar-lein. Mewn enghraifft arall, mae partneriaeth yn bwriadu recordio sesiynau i alluogi tiwtoriaid a'u harsylwr i wylio a siarad am y sesiwn gyda'i gilydd; mewn achos arall, trefnir y bydd recordiadau o sesiynau y cytunwyd eu bod yn dangos arfer effeithiol neu arloesol ar gael i diwtoriaid fel dosbarthiadau meistr.

Mewn un bartneriaeth, gwahoddir rheolwyr fel aelodau o'r dosbarth i Google Classrooms a gallant weld gwersi, a chymryd rhan ynddynt. Mae staff wedi cynnal sesiynau sicrhau ansawdd mewnol rhithwir mewn dosbarthiadau medrau hanfodol ac iaith arwyddion hefyd. Roedd hyn yn cynnwys gwylio cyflwyniadau dysgwyr yn fyw, ar-lein. Mae rheolwyr wedi safoni gwaith TGAU yn rhithwir hefyd. Agwedd fuddiol ar y cymedroli rhithwir oedd bod cymedrolwyr yn gallu rhannu a phawb yn gweld gwaith dysgwyr ar yr un pryd. Maent wedi gweld bod angen set wahanol o fedrau cyfathrebu o gymharu â thrafod yn bersonol (ar gyfer athrawon a dysgwyr, fel ei gilydd) ar gyfer cyfranogi ar-lein gan ddysgwyr, ac maent yn dechrau datblygu'r rhain.

Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn llai datblygedig o ran y paratoadau hyn, ac maent yn y camau cynllunio o hyd.

Mae rhywfaint o ddadlau ynghylch p'un a yw recordio gwersi at ddibenion arsylwadau yn dderbyniol i undebau. Nid yw darparwyr rhai partneriaethau wedi cael unrhyw broblem â hyn. Mae darparwyr eraill wedi cael gwrthwynebiad gan eu hundebau lleol.

## Recriwtio a chofrestru

Mae partneriaethau wedi'i chael yn anodd ymgysylltu â dysgwyr sydd â lefelau isel o ran llythrennedd a Saesneg (lefel cyn mynediad i lefel mynediad) ar gyrsiau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae hyn oherwydd diffyg hyder mewn rhai achosion a'r ffafriaeth i fod mewn ystafell ddosbarth gyda thiwtor lle maent yn teimlo'n fwy diogel.

Yn achos y rhai sydd â lefelau isel mewn Saesneg, weithiau mae lefelau llythrennedd isel ym mamiaith y dysgwr yn rhwystro dealltwriaeth, ac mae'n well ganddo gael ei addysgu yn bersonol. Mae partneriaethau yn ystyriol, yn sgil y cwymp yn yr economi, ei bod yn bosibl iawn y gallent weld mwy o ddysgwyr yn dymuno dychwelyd i ddysgu er mwyn dysgu medrau o'r newydd yn ddiweddarach y tymor hwn neu yn nhymor y gwanwyn, ac y gallai fod angen ystod wahanol iawn o gyrsiau i'r cynnig cwricwlwm presennol ar y dysgwyr hyn. Mae ychydig o bartneriaethau yn datblygu perthnasoedd agosach â Gyrfa Cymru a Chanolfannau Gwaith i gynllunio ar gyfer cyrsiau a fydd yn diwallu anghenion y dysgwyr posibl hyn.

### Ymgysylltiad dysgwyr

Dywed pob partneriaeth fod llai o ddysgwyr newydd yn cofrestru, a bod cofrestru'n digwydd yn arafach na'r arfer. Dywed partneriaethau fod heriau o ran sut i hyrwyddo a marchnata cyrsiau, ac nad yw rhai o'r cyfleoedd marchnata traddodiadol, fel taflenni a phosteri mewn lleoliadau cymunedol, ar gael am fod lleoliadau ar gau neu'n gweithredu ar gapasiti llai.

Mae pob partneriaeth yn parhau i flaenoriaethu cadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr. Dywed pob partneriaeth ei bod yn monitro presenoldeb dysgwyr mewn dosbarthiadau personol gyda chofrestrau, yn unol â'r arfer. Pan fydd cyflwyno ar-lein yn digwydd, mae partneriaethau'n defnyddio presenoldeb ar-lein, p'un a yw hynny ar ffurf sesiynau cydamserol neu anghydamserol, yn brocsi ar gyfer presenoldeb. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau'n defnyddio cwblhau gwaith hefyd fel arwydd o ymgysylltu, ac mae ychydig ohonynt yn dechrau defnyddio'r offer dadansoddol sydd ar gael ar eu platfformau ar-lein, er enghraifft Google Analytics. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes dull cyffredin wedi'i gytuno yn y sector i werthuso ymgysylltiad dysgwyr ar-lein, neu o gymharu darparwyr. Mae ychydig iawn o bartneriaethau yn dechrau ystyried sut i werthuso'r agwedd hon ar ymgysylltiad dysgwyr.

Mae pob partneriaeth yn defnyddio ystod o ddulliau i gael adborth gan eu dysgwyr a'u tiwtoriaid ar eu profiadau. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon ar-lein, adolygiadau un i un dysgwyr, prosesau ymsefydlu, galwadau ffôn lles, adborth yn bersonol, gwerthusiadau o gyrsiau, a chyfweliadau datblygiad proffesiynol gyda thiwtoriaid. Dywed partneriaethau eu bod wedi ymateb i adborth, er enghraifft trwy ddefnyddio meddalwedd sy'n haws cael mynediad ati, neu drwy addasu hyd ac amseriad dosbarthiadau byw ar-lein.

Mae pob partneriaeth wedi canolbwyntio ei hymdrechion trwy gydol cyfnod COVID-19 ar gynnal cyswllt â dysgwyr, a sicrhau eu bod yn ymgysylltu, ble bynnag y bo modd. Ar ddechrau'r cam achub, bu partneriaethau yn blaenoriaethu agweddau lles a llesiant ar ymgysylltu dros ddysgu. Gan fod patrwm o ymgysylltu wedi datblygu, mae partneriaethau yn symud eu ffocws yn ôl i ddilyniant mewn dysgu, yn ogystal â pharhau i gefnogi lles dysgwyr. Dywed ychydig o bartneriaid mewn ychydig o bartneriaethau eu bod wedi colli cysylltiad â dysgwyr. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi bod yn ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau hamdden anachredig.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn darparu gwybodaeth i ddysgwyr trwy gylchlythyrau ar-lein, tudalennau gwe a gohebiaeth arall sydd â chysylltiadau â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl, cyngor ar les a gwybodaeth gyfoes o ffynonellau swyddogol am atal COVID-19, a diogelu rhagddo.

Mae partneriaethau wedi cynnal ystod o gyrsiau ar-lein ar les hefyd, fel ioga, ymwybyddiaeth ofalgar, ymlacio ac ymarfer corff.

Mae ychydig o ddysgwyr wedi'i chael yn anodd iawn ymdopi â'r sefyllfa.  Mewn ychydig iawn o achosion, trwy ymgynghori â'r dysgwr, mae partneriaethau wedi gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth allanol.

## Iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff

Roedd pob partneriaeth yn rhoi blaenoriaeth uchel i les eu staff yn ystod dechrau'r cyfnod clo.  Yn gyffredinol, roedd rheolwyr llinell yn cysylltu â'u staff bob wythnos neu ddwywaith yr wythnos.  Mae hyn bellach yn dechrau lleihau wrth i bobl ailaddasu yn unol â'r 'normal newydd'.  Dywed y rhan fwyaf o bartneriaethau eu bod yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w staff am ddatblygiadau trwy gylchlythyrau a diweddariadau rheolaidd.

Dywed ychydig o bartneriaethau fod yr argyfwng wedi creu rhwystrau hirsefydledig rhag newid yn haws i symud trwyddynt, gan fod pobl wedi ceisio gwneud i bethau ddigwydd yn gyflym.  Er enghraifft, mewn un bartneriaeth, rhoddwyd ffôn symudol gwaith i staff – rhywbeth yr oedd rheolwyr wedi bod yn ceisio'i gyflawni ers blynyddoedd, gan fethu.

At ei gilydd, dywedodd partneriaethau fod morâl staff wedi bod yn dda, ar y cyfan, a bod "yr argyfwng wedi dod â phobl at ei gilydd".  Fodd bynnag, fe wnaeth partneriaethau godi pryder hefyd am lefel gyffredinol uwch o orbryder ymhlith staff, a bod ymdeimlad o flinder – ymhlith unigolion ac ar y cyd – yn dechrau ymddangos: "Pa mor hir allwn ni barhau i weithio fel hyn?"   "Rydym ni'n rhedeg i ddal i fyny..." "Yn hwyr neu'n hwyrach, byddwn ni'n diffygio."

Yn gyffredinol, mae partneriaethau wedi gallu darparu ar gyfer tiwtoriaid a oedd yn anghyfforddus i ddychwelyd at addysgu yn bersonol gyda dysgwyr, trwy roi tawelwch meddwl iddynt fod gweithleoedd wedi cael eu gwneud yn lleoedd diogel o ran COVID-19, trwy ddarparu cyfarpar diogelu personol, neu mewn ychydig iawn o achosion, trwy eu hadleoli i rolau lle nad oedd angen addysgu yn bersonol.

At ei gilydd, ni ddywedodd partneriaethau fod cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau diogelu.

Mae pob partneriaeth wedi ceisio cyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr, yn benodol trwy brynu offer TG ar gyfer y dysgwyr hynny sydd fwyaf mewn angen.  Mae partneriaethau wedi cyflwyno cynigion am grantiau i gefnogi iechyd meddwl trwy ddarparu cyrsiau teilwredig, hyfforddi mentoriaid iechyd meddwl, a sesiynau cymorth un i un.

Ar gyfer y partneriaethau hynny lle mae dysgwyr wedi eu cofrestru fel myfyriwr yn y coleg partner, mae gwasanaethau cwnsela ar gael yn y coleg.  Mae partneriaethau heb bartner coleg yn cyfeirio at asiantaethau allanol neu'r cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn narpariaeth y cyngor.

## Dysgu yn y sector cyfiawnder: Medi – Hydref 2020

### Diweddariad ar weithgareddau addysg a hyfforddiant

Mae pob carchar wedi cynnal asesiadau risg o'u darpariaeth addysg, hyfforddiant a gwaith yn barod ar gyfer canllawiau'r Swyddfa Gartref a fydd yn eu hysbysu pryd y gallant ailafael mewn sesiynau. Mae'r asesiadau risg hyn yn llywio eu cynlluniau adfer ac yn galluogi staff i nodi faint o ddysgwyr sy'n gallu gweithio ym mhob ystafell ddosbarth.

Ym mhob carchar, mae staff wedi bod yn rhoi pecynnau ymgysylltu i garcharorion. Mae gan garchardai a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi adnoddau ar y cyd er mwyn darparu deunydd ar gyfer y pecynnau hyn. Mae staff ym mhob carchar wedi ymgynghori â charcharorion ynghylch pa ddeunyddiau yr hoffent iddynt gael eu cynnwys mewn pecynnau, ac wedi addasu cynnwys yn unol â hynny. Mae ychydig o garcharorion wedi cyflwyno deunyddiau i'w cynnwys.

Er bod staff mewn llawer o garchardai wedi bod yn rhoi deunyddiau dysgu i garcharorion i'w galluogi i barhau â'u hastudiaethau, dywedodd ychydig o garchardai eu bod wedi galluogi dysgwyr i barhau i ennill cymwysterau. Mae un carchar wedi galluogi pobl ifanc i barhau i fynychu dosbarthiadau am ychydig oriau bob dydd trwy ymuno â charfanau. Dywedodd carchar arall eu bod wedi llwyddo i alluogi lleiafrif o ddysgwyr i gael gwaith trwy Drwydded Rhyddhau Dros Dro.

Mae pob carchar wedi parhau i gynnwys carcharorion mewn ystod gyfyngedig o weithdai a gweithgareddau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, fel teilwra, gwaith cynnal a chadw adeiladu, glanhau neu greu pecynnau bwyd. Mae ychydig o garcharorion sy'n gwneud gwaith glanhau wedi cael eu hyfforddi'n arbennig mewn glanhau bioberygl i sicrhau bod cyfleusterau'r carchar yn cael eu glanhau'n drylwyr.

Mae ychydig o garcharorion wedi datblygu cyfleusterau i garcharorion gynnal cyswllt â'u teuluoedd trwy alwadau fideo gynadledda. Mae staff mewn un carchar wedi cynorthwyo dysgwyr mewn gweithgareddau adrodd storïau digidol, lle mae dysgwyr yn creu ac yn anfon storïau at eu plant.

Mae llyfrgell symudol mewn un carchar wedi cael ei rheoli gan staff y carchar, sydd wedi dweud y bu cynnydd mewn lefelau benthyca. Hefyd, mae carchardai eraill wedi galluogi dysgwyr i fanteisio ar ddeunyddiau llyfrgell, ond mae'r drefn o roi llyfrau mewn cwarantin wedi i rywun eu darllen wedi cyfyngu ar faint o ddeunyddiau sy'n cael eu cylchredeg.

Mae un carchar wedi bod yn defnyddio cyfrifiaduron llechen TG i alluogi dysgwyr i ymgysylltu â dysgu. Mae staff wedi cynorthwyo'r dysgwyr hyn ymhellach trwy ddefnyddio ffonau mewn celloedd. Mae carchar arall wedi dechrau cynhyrchu rhaglenni teledu addysgol ar gyfer dysgwyr, y bydd yn eu darlledu o fewn y carchar i ddarparu deunyddiau dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr.